# Ble mae'r 'Newydd'? Canfyddiadau athrawon o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer MDPh y Celfyddydau Mynegiannol yn y Cwricwlwm i Gymru (2022)

Merris Griffiths, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Eve Oliver, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Chaminda Hewage, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Kate North, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Jon Pigott, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

CRYNODEB

Cyflwynwyd y Cwricwlwm i Gymru yn swyddogol ar lefel genedlaethol ym mis Medi 2022 ar ôl cyfnod pum mlynedd o ymgynghori a chyd-ddatblygu. Mae athroniaeth o hyblygrwydd addysgegol a sybsidiaredd yn sylfaen i'r diwygiad addysgol uchelgeisiol hwn, sy'n rhoi galluedd i athrawon gynllunio cwricwlwm sy'n briodol i gyd-destun eu hysgol. Mae'r papur hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd rhwng Hydref 2021 a Mai 2022, gan ddefnyddio holiaduron ar-lein (n=62) a chyfweliadau lled-strwythuredig (n=4) er mwyn archwilio canfyddiad athrawon y Celfyddydau Mynegiannol o'r cyfleoedd a'r heriau a fydd yn deillio o'r cwricwlwm newydd cyn ei lansio. Mae'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â rhyddid a hyblygrwydd cynllunio; dysgu a chydweithredu trawsgwricwlaidd; gwrthwynebiad i newid; effeithiolrwydd a hyder athrawon; hyfforddiant ac arweiniad y llywodraeth; a dyrannu amser ac adnoddau. Mae'r data yn datgelu pryderon am gynllunio'r cwricwlwm, gydag athrawon yn teimlo'n ansicr ynglŷn â ble i ddechrau. Roedd y tensiynau canfyddedig rhwng disgwyliadau a realiti wedi arwain at amheuaeth ynglŷn â chyflwyno newid o'i gymharu ag 'ail-labelu' hen arferion yn unig.

*https://doi.org/10.16922/wje.27.1.3cym*

**Geiriau allweddol:** Y Cwricwlwm i Gymru, Y Celfyddydau Mynegiannol, Canfyddiadau Athrawon, Cyfleoedd, Heriau

## Cyflwyniad

Dechreuodd y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn swyddogol ar lefel genedlaethol ym mis Medi 2022 ar ôl cyfnod pum mlynedd o ymgynghori a chyd-ddatblygu. Nododd Llywodraeth Cymru (2019) fod y Cwricwlwm newydd yn cynrychioli 'newid' arwyddocaol. Mae'r diwygiad addysgol uchelgeisiol hwn yn seiliedig ar athroniaeth o hyblygrwydd addysgegol a sybsidiaredd, gydag athrawon â galluedd i gynllunio cwricwlwm sy'n briodol i gyd-destun eu hysgol (Llywodraeth Cymru, 2020). Er bod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle i ailfeddwl, ail-ddychmygu ac amharu ar y paradeim addysgol presennol (Boulton-Funke et al., 2016), mae ei athroniaeth sylfaenol yn codi cwestiynau am y graddau y mae disgwrs y llywodraeth am y cwricwlwm 'newydd' yn cyd-fynd â chanfyddiadau athrawon ohono. Mae'r potensial ar gyfer amrywiad sylweddol yn y ddealltwriaeth o ddogfennau polisi a sut y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol wedi'i nodi mewn adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) o'r enw 'Achieving the New Curriculum for Wales' (2020). Mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai hyn arwain at inertia o ran ymarfer a hyd yn oed arwain at sefyllfa lle mae anghydraddoldebau i ddysgwyr ar gynnydd (gweler Evans, 2023).

Gan ddefnyddio egwyddorion hyblygrwydd addysgegol a sybsidiaredd fel man cychwyn, mae'r erthygl hon yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn dealltwriaeth ynghylch canfyddiadau'r rhai y disgwylir iddynt lunio strwythur y cwricwlwm newydd yng Nghymru, a'i gyflwyno. Ei nod yw archwilio sut mae athrawon y Celfyddydau Mynegiannol yn siarad am y cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd. Ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn parthed agweddau athrawon tuag at y diwygiadau, yn enwedig mewn meysydd pwnc fel y Celfyddydau Mynegiannol, nad ydynt wedi eu hystyried yn y gorffennol fel mesurau perfformiad allweddol i ysgolion. Felly, mae'r erthygl hon yn mynd ati i geisio deall safbwyntiau ymarferwyr yn y system addysg orfodol yng Nghymru.

Cyflwynir adroddiad cryno o'r diwygiadau addysg yng Nghymru cyn ystyried sut mae dwy nodwedd allweddol o'r cwricwlwm – datblygu ar y cyd a sybsidiaredd – yn

cael eu fframio gan Lywodraeth Cymru. Amlinellir prif nodweddion Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Celfyddydau Mynegiannol, a rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i faterion cydraddoldeb posibl wrth gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu ystyrlon i ddisgyblion. Yna cyflwynir data gwreiddiol o broses casglu data dau gam, gan gynnig mewnwelediadau unigryw i ganfyddiadau athrawon o'r cwricwlwm newydd cyn ei lansio ym mis Medi 2022. Yn olaf, awgrymir rhai casgliadau posibl, gan nodi'r hyn sydd angen ei wneud i gefnogi athrawon yn ystod proses bontio bwysig yn eu hymarfer proffesiynol.

## Cyd-destun: Diwygiadau Addysg yng Nghymru

Yn hanesyddol, tebyg fu'r prosesau llywodraethu a llunio polisïau addysg yng Nghymru a Lloegr; datblygodd systemau'r ddwy wlad i raddau helaeth ochr yn ochr â'i gilydd ar ôl cyflwyno'r brif ddeddf addysg gyntaf ym 1870. Fodd bynnag, ers datganoli ym 1999, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y polisi addysg yng Nghymru. Dros amser, mae hyn wedi arwain at ddatblygu agendâu addysgol gwahanol yn y ddwy wlad. Gellir dadlau bod y Cwricwlwm i Gymru (2022a) yn cynrychioli'r newid polisi mwyaf arwyddocaol ers datganoli, gan arwain at wahaniaeth sylfaenol rhwng system addysg Cymru a system addysg Lloegr.

Er gwaethaf y gwahaniaeth cynyddol rhwng y systemau yng Nghymru a Lloegr, ceir diddordeb gwleidyddol mawr o hyd ar lefel y DU mewn cyrhaeddiad addysgol a mesurau ansawdd. Yn 2009, er enghraifft, yn dilyn canlyniadau gwael disgyblion Cymru (lle mae addysg wedi bod o dan reolaeth llywodraeth Lafur ers datganoli) yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), roedd gweinidogion Lloegr yn San Steffan yn gyflym i ddifrïo'r system ddatganoledig mewn ymosodiad gwleidyddol (Power, 2016). Serch hynny, fel mae Power (2016: 10) yn ei nodi, mae'r cymhlethdodau sylweddol sy'n gysylltiedig â llywodraethu 'haenog' Cymru ddatganoledig, sy'n cynnwys llywio materion ar lefel leol a lefel genedlaethol yng nghyd-destun ehangach rheolaethau deddfwriaethol a chyfyngiadau ariannu San Steffan, yn golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol â gwledydd eraill ym Mhrydain, yn enwedig wrth geisio dehongli data am gyflawniad addysgol.

Gan fyfyrio ar ddefnydd o ddata PISA fel offeryn gwleidyddol ym maes llywodraethu addysg (Grek, 2009), ysgogodd data PISA (2009) ar gyfer Cymru y Gweinidog Addysg ar y pryd, Leighton Andrews, i lansio rhaglen o ddiwygiadau

cadarn trwy gyfres o fesurau gwella ysgolion a oedd yn canolbwyntio ar gynyddu atebolrwydd (Andrews, 2011/2014). Roedd hyn yn cynnwys ailgyflwyno profion cenedlaethol ym meysydd rhifedd a llythrennedd ar gyfer pob dysgwr o Flynyddoedd 2 i 9, a system goleuadau traffig[1] i raddio perfformiad ysgolion (Connolly et al., 2018). Cyflwynodd Llywodraeth Cymru rywfaint o ad-drefnu strwythurol hefyd, a sefydlodd Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni. Fel rhan o hyn, sefydlwyd pedwar consortiwm rhanbarthol er mwyn gwella ysgolion a chodi safonau yn eu rhanbarth[2] (ibid., 2018). Yr hyn a ddilynodd oedd proses o gyfyngu ar y cwricwlwm a oedd yn mynd yn fwyfwy rhagnodol, ac oherwydd mai asesu a data a oedd wrth wraidd y cyfan, roedd prinder cyfleoedd i athrawon addasu'r cwricwlwm yn unol ag anghenion disgyblion yng nghyd-destun eu hysgolion (Donaldson, 2015).

Yn dilyn canlyniadau PISA gwael eto yn 2012, ac yn sgil penodi Gweinidog Addysg newydd yn 2013[3], comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r system ysgolion yng Nghymru. Roedd yr adroddiad, o'r enw 'Improving Schools in Wales – An OECD Perspective" (2014), yn nodi cryfderau a heriau, gan ganolbwyntio ar gefnogi tegwch ac ansawdd yn y system addysg. Hefyd, cyflwynodd yr adroddiad nifer o argymhellion yn ymwneud â chodi statws y proffesiwn trwy ddatblygiad proffesiynol, addysg gychwynnol i athrawon, a chydweithredu, er mwyn datblygu'r seilwaith i alluogi ysgolion i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol, a datblygu fframwaith asesu a gwerthuso cydlynol (ibid.).

Sbardunodd hyn ddiwygiadau mwy helaeth i'r cwricwlwm, gan arwain at lansio cynllun gwella addysg pum mlynedd Llywodraeth Cymru, '*Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer Plant 3 i 19 oed yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2014), yn ogystal*

1 Diddymwyd hyn cyn lansio'r Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022 ac nid yw wedi'i ddisodli ar adeg ysgrifennu'r papur hwn.

2 Y Pedwar consortiwm rhanbarthol: GwE, yn cwmpasu rhanbarth Gogledd Cymru; ERW, yn cwmpasu Canolbarth a De-orllewin Cymru; GCA, yn cwmpasu De-ddwyrain Cymru; CSC, yn cwmpasu rhanbarth Canolbarth y De. Yn 2020, penderfynodd Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot adael ERW, cyn i Geredigion a Phowys adael y consortiwm wedyn hefyd. O ganlyniad, sefydlwyd partneriaeth rhwng y tri awdurdod lleol a oedd yn parhau i fod yn rhan o gonsortiwm gwreiddiol ERW (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe). Sefydlodd Ceredigion a Phowys bartneriaeth anffurfiol eu hunain, ac ar hyn o bryd nid yw Castell-nedd Port Talbot yn gweithio ochr yn ochr ag unrhyw awdurdod lleol neu gonsortiwm (Estyn, 2022).

3 Gadawodd Leighton Andrews ei swydd yn 2013, a phenodwyd Huw Lewis yn Weinidog Addysg rhwng 2013 a 2016.

*â chyfres o adolygiadau annibynnol i agweddau amrywiol ar addysg Cymru (Donaldson, 2015; Furlong, 2015; Smith, 2013). Comisiynwyd Graham Donaldson, cyn Brif Gynghorydd Addysg Llywodraeth yr Alban4,* i adolygu'r system yng Nghymru. Sefydlodd ei adroddiad arloesol, 'Dyfodol Llwyddiannus' (2015), y weledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol y system. Derbyniodd Huw Lewis, Gweinidog Addysg Cymru ar y pryd, holl argymhellion Donaldson ar gyfer fframweithiau'r cwricwlwm ac asesu, ac fe'u nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru (2015b), 'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes'.

Roedd y ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion sylfaenol a fyddai'n llunio'r broses o ddiwygio addysgol ac yn sylfaen i gwricwlwm a arweinir gan y dibenion. Rhoddwyd pwyslais ar uchelgais a chynhwysiant, datblygu ar y cyd a sybsidiaredd, prosesau rheoli ac uno, gan sicrhau bod pob un o'r elfennau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth (Llywodraeth Cymru, 2015b). Cyhoeddwyd Cenhadaeth ein Cenedl ddwy flynedd yn ddiweddarach (Llywodraeth Cymru, 2017), a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion am ehangder yr agenda uchelgeisiol a chymhleth i ddiwygio'r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu (gweler OECD 2016), a chodi statws ac ansawdd y proffesiwn trwy, ymhlith pethau eraill, adolygu'r safonau proffesiynol a meithrin gallu trwy ddysgu proffesiynol.

## Datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru: Datblygu ar y cyd a Sybsidiaredd

Daeth datblygu ar y cyd a sybsidiaredd i'r amlwg fel dwy o sylfeini athronyddol allweddol y cwricwlwm newydd. Mabwysiadwyd model arloesol i hyrwyddo'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm ar y cyd (Llywodraeth Cymru, 2015a). Dewisodd Llywodraeth Cymru ysgolion i gymryd rhan ar sail eu cyfraniadau blaenorol at ddatblygu'r cwricwlwm a thystiolaeth o ymarfer arloesol (Kneen et al., 2023). Cymerodd dros 200 o ysgolion ran yn y Rhwydwaith o Ysgolion Arloesi, gan gydweithredu â Llywodraeth Cymru[5], y consortia rhanbarthol, Estyn[6], awdurdodau lleol, ac arbenigwyr allweddol a swyddogion eraill y llywodraeth. Gyda'i gilydd,

4 Cafodd Donaldson effaith fawr ar y broses o ddiwygio cwricwlwm yr Alban o ganlyniad i'w adroddiad, 'Teaching Scotland's Future' (2011).

5 Rhwng 2016 a 2021, Kirsty Williams oedd yn arwain prosesau diwygio'r cwricwlwm yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog Addysg.

6 Arolygiaeth ysgolion Cymru.

aethant ati i ddatblygu'r fframweithiau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (OECD, 2020). Fodd bynnag, mae Duggan et al. (2017) yn awgrymu nad oedd nifer o ysgolion arloesi yn deall yn llawn eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y prosesau hyn. Yn ogystal, gellid dadlau bod diffyg cyfeiriad strategol, amserlenni clir, ac ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau dysgu proffesiynol a oedd ar gael wedi cyfrannu at brofiadau amrywiol i'r cyfranogwyr (Ymchwil Arad ac ICF Consulting, 2018; Duggan et al., 2017).

Yn ogystal â datblygu ar y cyd, nod sybsidiaredd o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru oedd rhoi'r galluedd i ysgolion ac athrawon gynllunio cwricwlwm a fyddai'n addas i anghenion y dysgwyr mewn cyd-destun lleol. Fodd bynnag, er ei fod yn ddynamig mewn egwyddor, gall cwricwlwm llai rhagnodol sy'n canolbwyntio ar ddysgu ystyrlon a dysgu drwy brofiad ar gyfer pob disgybl arwain at ganfyddiadau a deongliadau amrywiol (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r OECD (2020) yn nodi y gall rhyddid cymharol effeithio ar gyflwyniad y cwricwlwm, gan arwain at ddeongliadau gwahanol a hyd yn oed achosion o wrth-ddweud. Gall rhyddid o'r fath hefyd achosi lefelau o bryder ymhlith athrawon parthed prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau, a gall arwain at wahaniaethau yn y ddarpariaeth yn y pen draw (Evans, 2023; Wavehill, 2019a).

## MDPh Y Celfyddydau Mynegiannol: Parhad a Thegwch?

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn un o chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh)[7] y Cwricwlwm i Gymru (2022a), ac mae'n cynnwys 'cyfleoedd eang a chytbwys ar gyfer celf, cerddoriaeth, dawns, drama, ffilm a'r cyfryngau digidol, a cherddoriaeth' (Llywodraeth Cymru, 2020). Fel man cychwyn, mae'n ddefnyddiol gosod y ddarpariaeth newydd hon yng nghyd-destun yr hyn a oedd ar waith yn flaenorol, er mwyn deall graddfa diwygio'r cwricwlwm yn y maes hwn.

Roedd y ddogfen ragflaenorol, y Cwricwlwm Cenedlaethol Celf a Dylunio (Llywodraeth Cymru, 2008), wedi'i drefnu ar sail tair egwyddor allweddol i ddysgwyr, fel a ganlyn:

7 Y MDPh eraill yw: Y Dyniaethau; Iechyd a Lles; Gwyddoniaeth a Thechnoleg; Mathemateg a Rhifedd; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

1. *Deall:* Archwilio gwaith pobl, lleoedd ac amseroedd eraill, ac ystyried bwriad y gwaith.
2. *Ymchwilio*: Pwysleisio trefniadaeth weledol a chynhyrchu syniadau ac ymateb i ysgogiadau.
3. *Gwneud*: Cyfleoedd i archwilio, arbrofi, dylunio, gwneud a phrofi ystod eang o ddeunyddiau, technegau, prosesau a chyd-destunau.

Gellid dadlau bod y fframwaith ar gyfer cwricwlwm newydd y Celfyddydau Mynegiannol yn mabwysiadu dull tebyg, gan gyfeirio at dri Datganiad o'r hyn sy'n Bwysig sy'n sylfaen i strwythur y MDPh (Llywodraeth Cymru, 2020), sef:

1. *Ymateb a myfyrio* (fel artist ac fel cynulleidfa): Pwysleisio pwysigrwydd datblygu gwydnwch a dyfnhau dealltwriaeth o 'sut a pham y caiff gwaith creadigol ei ddatblygu a'i greu' (ibid.).
2. *Archwilio*: Datblygu dealltwriaeth o'r byd rydym yn byw ynddo, ac archwilio sut mae'r celfyddydau yn cyfathrebu, sut mae syniadau a theimladau yn cael eu cyfleu, a sut y gellir dewis a thrin technegau i wireddu bwriadau.
3. *Creu*: Pwysleisio cymhwyso gwybodaeth a sgiliau, lle mae 'Creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg' (ibid.).

Mae'r Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig uchod wedi'u hategu gan fframwaith Camau Cynnydd[8] sy'n rhestru meini prawf ar ffurf datganiadau 'Rwy'n gallu …' (Llywodraeth Cymru, 2020). Gellid dehongli'r rhain fel rhestr wirio cyrhaeddiad wedi'i threfnu mewn strwythur llinellol. Fodd bynnag, gan fod prosesau creadigol yn rhan annatod o bum disgyblaeth MDPh y Celfyddydau Mynegiannol (Llywodraeth Cymru, 2020), mae tensiynau paradocsaidd yn codi eu pen. Gellid dadlau bod proses ddilys, rhisomatig a chreadigol iteraidd, sy'n sylfaenol i addysg y celfyddydau, (Atkinson, 2012; Biesta a Cole, 2018; Craft et al., 2014; Sawyer, 2021), yn mynd yn groes i'r fframwaith Camau Cynnydd llinellol. O ganlyniad, gallai mesurau cyrhaeddiad gael eu camddehongli a'u cymhwyso'n wael (Wavehill, 2019a), gan olygu bod y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn ymarferiad ticio blychau yn unig a bod hynny'n cynyddu'r perygl o wahaniaethau mewn ymarfer a phrofiadau dysgu anghyfartal i ddisgyblion (Power, Newton a Taylor, 2020). Ar yr un pryd, mae'r

8 Mae'r camau cynnydd yn gweithredu ar hyd 'continwwm dysgu' (o 3–16 oed).

gorgyffwrdd oddi mewn a rhwng pob un o'r llinynnau yn creu cysondeb ac yn gosod paramedrau, sy'n cael eu hadleisio yn y dull enwi cyfatebol yn yr 'hen' gwricwlwm a'r cwricwlwm 'newydd' (deall/ymateb; ymchwilio/archwilio; gwneud/creu).

Yn ddamcaniaethol, mae'r newid i gwricwlwm sy'n seiliedig ar bedwar diben allweddol yn creu gweledigaeth genedlaethol gyffredin. Mae'n rhoi pwyslais ar gynllunio cwricwlwm sy'n briodol i gyd-destun penodol ysgol a'i dysgwyr, gan ei gwneud yn ofynnol i athrawon ystyried yn benodol nid yn unig *beth* maen nhw'n yn ei addysgu ond hefyd *sut* a *pham* mae hyn yn bwysig o fewn diben MDPh penodol a'r Cwricwlwm i Gymru yn ehangach (Biesta a Cole, 2018; Llywodraeth Cymru 2020). Sbardun yr ymchwiliad presennol oedd diddordeb mewn gwella dealltwriaeth o ganfyddiadau athrawon o'u meysydd pwnc, ar adeg o bontio o'r 'hen' gwricwlwm i'r cwricwlwm 'newydd'.

## Yr astudiaeth

Ar sail amserlen diwygio'r cwricwlwm a nodwyd uchod a'r graddau gwahanol y cyfrannodd ysgolion/athrawon at y broses o'i ddatblygu ar y cyd (neu'r graddau y cawsant eu hepgor o'r broses), nod ein hastudiaeth oedd cyfleu profiadau ac agweddau athrawon y Celfyddydau Mynegiannol ledled Cymru. Mae'r papur hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd rhwng Hydref 2021 a Mai 2022, gan ddefnyddio holiaduron ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig er mwyn archwilio canfyddiad athrawon MDPh y Celfyddydau Mynegiannol o'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynwyd gan y Cwricwlwm i Gymru (2022a) cyn ei lansio ledled Cymru.

## Dulliau a Sampl

Defnyddiodd yr astudiaeth ddull cymysg (Sammons and Davis, 2017) er mwyn creu 'synergedd' (Teddlie a Sammons, 2010: 116) rhwng gwahanol fathau o ddata, a thrwy hynny wella dealltwriaeth o agweddau a chanfyddiadau athrawon. Cynlluniwyd y broses casglu data mewn dau gam er mwyn cynhyrchu setiau data cysylltiedig y gellir eu cymharu. Roedd Cam Un yn cynnwys llunio a lansio arolwg ansoddol a meintiol dwyieithog ar-lein er mwyn cael ciplun cychwynnol o agweddau a chanfyddiadau athrawon. Dilynwyd hyn gan Gam Dau, sef cyfweliadau un-i-un

lled-strwythuredig (ar sail dewis iaith y rhai a gafodd eu cyfweld), er mwyn hwyluso archwiliad manylach o brofiadau athrawon.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfanswm o bedwar cwestiwn ar hugain, gan gynnwys cwestiynau caeedig yn gofyn am ateb cadarnhaol/negyddol (n=4), rhestrau lle'r oedd modd dewis un ymateb neu fwy (n=6), graddfeydd agwedd pum pwynt Likert (n=6), a blychau testun agored (n=8). Arweiniodd y cyfuniad o wahanol fathau o gwestiynau at set ddata gyfoethog o wybodaeth fesuradwy ac elfen o naws ansoddol. Ar ôl treialu'r cwestiynau, defnyddiwyd ystod o blatfformau a chysylltiadau ar-lein er mwyn rheoli'r broses ddosbarthu. I ddechrau, cafodd yr arolwg lansiad meddal ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Hydref 2021. Dilynwyd hyn wedyn gan ddosbarthiad ehangach trwy gonsortia addysg, gweithgorau a sefydliadau ledled Cymru sydd â chysylltiad â'r byd addysg yng Nghymru yn gyffredinol a/neu'r Celfyddydau Mynegiannol yn benodol, er mwyn ceisio cynnwys amrywiaeth dda o athrawon o bob cwr o'r wlad.

Cynhaliwyd y cyfweliadau lled-strwythuredig ym mis Mawrth/Ebrill 2022. Yn dilyn proses gychwynnol o ymgyfarwyddo â data'r arolwg (Braun a Clarke, 2022: 6), nodwyd set o themâu i greu fframwaith ystyrlon er mwyn cynnal sgyrsiau. Yn sgil y broses gynnar hon, roedd modd i dîm y prosiect sicrhau dibynadwyedd y gwaith codio data. Defnyddiwyd themâu cychwynnol yn ymwneud â 'pharhad a newid', 'cynlluniau i gyflwyno cynnwys/darpariaeth', 'prosesau cynllunio a dylunio', a 'chyfleoedd dysgu dilys' er mwyn dyfeisio nifer o gwestiynau i hwyluso archwiliad pellach. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein, gan ddefnyddio MS Teams, a chafodd y sgyrsiau eu trawsgrifio er mwyn cadw cofnod manwl.

Cafwyd cyfanswm o 62 o ymatebion i'r arolwg (Tabl 1), a oedd yn cynnwys dosbarthiad da o athrawon ar draws y Cyfnodau Allweddol (Tabl 2). Cafwyd y nifer fwyaf o ymatebion (n=26) gan athrawon CA2, a oedd o bosibl yn adlewyrchu amlygrwydd cymharol y Celfyddydau Mynegiannol yn y cwricwlwm mewn ysgolion cynradd. Hefyd, gan fod mwy o ysgolion cynradd (n=1,219) nag ysgolion uwchradd (n=182) yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2021a: 5), mae mwy o athrawon yn gweithio yn y sector cynradd. Yn ogystal, cynrychiolwyd holl ardaloedd rhanbarthol Cymru yn yr ymatebion (Tabl 3). Daeth nifer uchaf yr ymatebion o ranbarth y de-ddwyrain, sy'n adlewyrchu poblogaeth fawr yr ardal, ac felly'r nifer fwyaf o ysgolion fesul ardal Awdurdod Addysg Lleol (AALl). Yn fwy cyffredinol, roedd dosbarthiad yr arolwg ledled Cymru yn golygu bod cyd-destunau AALl trefol a gwledig wedi'u cynnwys. Mae'r iaith a ddewisodd y cyfranogwyr i gwblhau'r arolwg (Tabl 4) yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol traddodiadol y Gymraeg a'r Saesneg

yng Nghymru (gweler Llywodraeth Cymru, 2021b). Ar y cyfan, roedd yr ymchwilwyr yn fodlon bod cwmpas a graddfa proffil demograffig yr arolwg yn ddigon cynrychioliadol o faes addysgu'r Celfyddydau Mynegiannol yn ysgolion Cymru.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Sampl – Camau Un a Dau**

| | | |
|---|---|---|
| | **CAM UN: Arolwg ar-lein** | |
| **Sampl gyfunol** | **Ymatebion cyfrwng Saesneg** | **52** |
| | Ymatebion cyfrwng Cymraeg | 10 |
| | CYFANSWM | 62 |
| | | |
| | **CAM DAU: Cyfweliadau lled-strwythuredig** | |
| Y Sector Cynradd | Ymatebion cyfrwng Saesneg | 0 |
| | Ymatebion cyfrwng Cymraeg | 1 |
| Y Sector Uwchradd | Ymatebion cyfrwng Saesneg | 3 |
| | Ymatebion cyfrwng Cymraeg | 0 |
| | CYFANSWM | 4 |

**Tabl 2: Crynodeb o ymatebwyr i'r arolwg yn ôl lefel**

| **Lefel** | **N = cyfrwng Saesneg** | **N = cyfrwng Cymraeg** | **CYFANSWM N=** |
|---|---|---|---|
| Y Cyfnod Sylfaen | 7 | 2 | 9 |
| CA2 | 21 | 5 | 26 |
| CA3 | 11 | 3 | 14 |
| CA4 | 13 | 0 | 13 |

**Tabl 3: Crynodeb o ymatebwyr i'r arolwg yn ôl rhanbarth**

| **Rhanbarth** | **N = cyfrwng Saesneg** | **N = cyfrwng Cymraeg** | **CYFANSWM N=** |
|---|---|---|---|
| Gogledd-orllewin | 3 | 4 | 7 |
| Gogledd-ddwyrain | 6 | 0 | 6 |
| Y Canolbarth | 8 | 3 | 11 |
| De-orllewin | 5 | 2 | 7 |
| De-ddwyrain | 29 | 1 | 30 |

**Tabl 4: Crynodeb o'r math o ysgol**

| Math o ysgol | N = cyfrwng Saesneg | N = cyfrwng Cymraeg | CYFANSWM N= |
|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 5 | 6 | 11 |
| Dwyieithog | 6 | 3 | 9 |
| Cyfrwng Saesneg | 41 | 1 | 42 |

Roedd y cyfweliadau lled-strwythuredig yn fwy heriol i'w trefnu oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig. Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar cyfweliad (ar-lein): un athro ysgol gynradd mewn ardal drefol a oedd ar secondiad rhannol fel arweinydd strategol ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol mewn clwstwr o ysgolion; un Pennaeth y Celfyddydau Mynegiannol mewn ysgol uwchradd wledig; un athro Saesneg a'r Cyfryngau mewn ysgol uwchradd drefol; ac un Arweinydd Cwricwlwm ar gyfer Celf a Dylunio mewn ysgol uwchradd drefol. Roedd y cyfranogwyr naill ai wedi cyfrannu at yr arolwg ac wedi mynegi parodrwydd i gael eu cyfweld neu roeddent yn hysbys i aelodau'r tîm ymchwil. O ran samplu, rhoddwyd peth pwyslais ar gyfweld athrawon ysgolion uwchradd oherwydd bod data'r arolwg yn awgrymu bod gan y rhai sy'n gweithio yn y sector hwn bryderon penodol am gyflwyno'r cwricwlwm newydd, a bod hyn yn cyfiawnhau ymchwiliad manylach.

Dadansoddwyd y data ansoddol trwy ddefnyddio proses o godio anwythol (Krippendorff, 2013) mewn fframwaith dadansoddiad thematig atgyrchol (Braun a Clarke, 2022) er mwyn nodi a mapio patrymau ymateb o fewn y data. Mabwysiadwyd dull disgrifiadol, ffenomenolegol er mwyn cael rhywfaint o ddealltwriaeth o 'brofiadau bywyd' athrawon yn ystod proses o lywio newid i'r cwricwlwm. Bydd y data a gyflwynir yn yr erthygl hon yn canolbwyntio ar y patrymau a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â chanfyddiadau'r athrawon o'r cyfleoedd a'r heriau o fewn ac ar draws MDPh y Celfyddydau Mynegiannol.

## Canfyddiadau

O ystyried pwyslais yr erthygl hon ar gyfleoedd a heriau canfyddedig y cwricwlwm newydd, roedd y rhan fwyaf o'r data yn dod o ymatebion yr athrawon i saith cwestiwn yn yr arolwg (gweler yr Atodiad), ynghyd â darnau perthnasol o'r cyfweliadau

**Tabl 5: Crynodeb o'r cwestiynau craidd a'r is-themâu a ddaeth i'r amlwg**

| **Cwestiynau Craidd** | **Themâu a ddaeth i'r amlwg** |
|---|---|
| Cwestiwn 17: Rheoli'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. | A. Strwythur y cwricwlwm a chyd-destun ysgolion<br>B. Cydweithredu<br>C. Hyfforddiant<br>D. Defnyddio Blwyddyn 7 i fraenaru'r tir<br>E. Dulliau thematig a gwaith prosiect<br>F. Arall |
| Cwestiwn 18: Sut i alluogi dysgwyr i ennill profiad uniongyrchol o'r celfyddydau. | A. Gweithgareddau allgyrsiol<br>B. Cyfleoedd yn seiliedig ar y cwricwlwm<br>C. Cynllunio'r broses ddysgu<br>D. Cymorth allanol<br>E. Arall |
| Cwestiwn 20: Manteisio ar arbenigedd eraill. | A. Sefydliadau<br>B. Artistiaid unigol<br>C. Teithiau<br>D. Aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r pandemig |
| Cwestiwn 24: Y prif flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. | A. Cyflwyniad / Pecynnu / Addysgeg<br>B. Canolbwyntio ar ddysgwyr<br>C. Adnoddau / Amser<br>D. Hyfforddiant<br>E. Cydweithredu / Rhwydweithio |
| Cwestiwn 25: Unrhyw sylwadau pellach / terfynol. | Wedi'u trin fel naratif annibynnol er mwyn nodi barn athrawon unigol. |

lled-strwythuredig. Nodwyd is-themâu o fewn y patrymau hyn er mwyn creu ciplun o ganfyddiadau'r athrawon. Mae'r is-themâu hyn wedi'u crynhoi isod (Tabl 5) er eglurder:

Er mwyn creu naratif cydlynol yn ymwneud â chanfyddiadau'r athrawon, ad-drefnwyd yr is-themâu yn Nhabl 5 i greu categorïau ehangach, sef 'cyfleoedd canfyddedig' a 'heriau canfyddedig', er mwyn caniatáu haenau o drafodaethau micro/macro ynglŷn â chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd y cyfleoedd canfyddedig yn canolbwyntio ar ddwy thema: 'rhyddid a hyblygrwydd cynllunio', a 'dysgu trawsgwricwlaidd a chydweithredu'. Roedd yr heriau canfyddedig yn canolbwyntio ar bedair thema: 'gwrthwynebiad i newid'; 'effeithiolrwydd a hyder athrawon'; 'hyfforddiant ac arweiniad y llywodraeth'; a 'dyrannu amser ac adnoddau'. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu harchwilio, yn eu tro, isod.

## Themâu a ddaeth i'r amlwg [1] – Cyfleoedd canfyddedig

*Rhyddid a Hyblygrwydd Cynllunio*

Mae nodwedd allweddol o'r Cwricwlwm i Gymru (2022a) yn seiliedig ar sybsidiaredd a sicrhau rhagor o alluedd i athrawon, gyda rhywfaint o ryddid i ysgolion deilwra eu prosesau cynllunio'r cwricwlwm a'u prosesau gwneud penderfyniadau mewn modd ystyrlon yn unol â'u cyd-destunau penodol. Cyfeiriwyd at y dull gweithredu hwn yn adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' Donaldson (2015: 15), a nododd awydd canfyddedig 'i ysgolion ac athrawon gael mwy o ymreolaeth (ond nid ymreolaeth lwyr)'. Roedd ymatebwyr i'r astudiaeth hon wedi cydnabod yr elfen o 'ryddid', ac fe'i hystyriwyd yn un o'r elfennau mwyaf cyffrous a chadarnhaol o'r cwricwlwm newydd. Cyfeiriodd yr ymatebwyr nid yn unig at yr hyblygrwydd sydd ymhlyg yn fforddiannau amrywiol y maes pwnc, ond hefyd at y cyfleoedd creadigol i ddyfeisio seilwaith ymarferol ar gyfer mesur ac olrhain datblygiad sgiliau ar hyd continwwm [C17/A/9[9]].

Fel rhan o'r cwricwlwm newydd, bwriedir i'r elfen cynllunio cynnwys weithredu ar lefelau pwnc a thrawsgwricwlaidd. Roedd cydnabyddiaeth o hyn yn amlwg mewn ymatebion a oedd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy lefel [C17/A/11]. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddechrau gyda 'Cwestiynau Mawr' [C17/A/14] er mwyn sefydlu fframwaith cyffredinol cyn datblygu manylion y cynnwys. Cyfeiriodd eraill at fabwysiadu dulliau thematig, yn ymwneud â gwaith prosiect yn benodol, er mwyn cychwyn y broses gynllunio [C17/E/1; C17/E/6]. Mae hyn yn dangos bod gan yr athrawon yn y sampl ffyrdd gwahanol o amgyffred cynllunio'r cwricwlwm. Hefyd, trwy arddangos sylfaen athronyddol sybsidiaredd mewn ffordd weithredol, roeddent yn cydnabod y cyfle i ddatblygu dulliau pwrpasol sy'n ystyried nodweddion penodol cyd-destun ysgolion penodol.

Ochr yn ochr â chwestiynau ehangach yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, cafwyd cwestiynau yn ymwneud â chynllunio'r dysgu hefyd. Roedd yr ymatebwyr yn poeni sut y byddai gwersi a phrofiadau penodol yn gweithio, a sut y dylai'r rhain

9 Mae'r cod hwn yn ymwneud ag ymateb i'r holiadur ac mae'n dynodi'r cwestiwn, yr is-thema, a'r rhif ymateb. Yn yr achos hwn: Cwestiwn 17, Is-thema A, ac Ymateb 9.

gysylltu mewn ffyrdd diriaethol/mesuradwy â gofynion y cwricwlwm[10]. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ystyriaethau allweddol yn gysylltiedig â chynllunio'r dysgu, gan nodi bod angen i'r gwersi fod yn 'ymarferol' [C18/C/4], 'yn gyfranogol' [C18/C/14], 'yn ystyrlon' [C18/C/15] ac 'yn ddilys' [C18/C/7], wedi'u llunio mewn perthynas â 'gwaith pwnc' [C18/C/10] neu 'waith thema' [C18/C 21] a 'gweithdai' [C18/C/8; C24/A/4; C24/A/10]. Roedd cysylltiad hefyd rhwng cynllunio dysgu a gwybodaeth a sgiliau athrawon pwnc arbenigol [C18/C/19; C18/C/22], gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod penderfyniadau am gynllunio yn cael eu gwneud gan y rhai sydd â'r arbenigedd perthnasol. Nodwyd bod hyn yn hanfodol yn y sector uwchradd yn benodol, gan gydnabod y traddodiad o arbenigedd pwnc ar y lefel hon o addysg [C18/C/22]. Fel y nododd un ymatebydd: 'Gallai cwricwlwm y celfyddydau mynegiannol fod yn wych – cyn belled â bod arbenigeddau gwahanol yn cael eu cadw. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng archwilio'r broses greadigol a dysgu ehangder o sgiliau…' [C25/2].

***Dysgu trawsgwricwlaidd / Cydweithredu***

Mae sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol wedi'u gwreiddio yn y cwricwlwm newydd ac maent yn ymwneud â dau fframwaith: 'Llythrennedd a Rhifedd' a 'Chymhwysedd Digidol' (Llywodraeth Cymru, 2022b). Er bod y fframweithiau hyn yn cael eu hystyried yn ffordd o ysgogi cysylltiadau diddorol rhwng disgyblaethau pwnc o fewn MDPh y Celfyddydau Mynegiannol er mwyn cyfoethogi ac angori profiadau dysgu plant, cyfeiriodd yr ymatebwyr at heriau canfyddedig dull gweithredu trawsgwricwlaidd mewn perthynas â phwysigrwydd cynllunio cysylltiadau ystyrlon a phendant (yn hytrach na disylwedd a thocenistaidd) rhwng meysydd pwnc [C17/A/2]. Canfyddiad rhai ymatebwyr oedd bod dull 'wedi'i dargedu' o gynllunio o fewn y MDPh yn haws i'w gynllunio a'i weithredu na meddwl mewn termau ehangach am ddarpariaeth ar draws y MDPh [C17/A/3]. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gadw elfennau trawsgwricwlaidd (ar lefel pwnc), gan 'wneud cysylltiadau lle bo hynny'n briodol' [C17/A/2]. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder y byddai dulliau trawsgwricwlaidd yn gwanhau profiadau dysgu wrth feddwl am ofynion gwahanol ar

10 Mae'r rhain yn cynnwys: Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd, Pedwar Diben (yn seiliedig ar Sgiliau Cyfannol), Pum Llwybr Datblygu, Pum Egwyddor Dysgu, Chwe Maes Dysgu, Deuddeg Egwyddor Addysgegol, Camau Cynnydd, Continwwm Dysgu 3–16, ac ystod o Ddatganiadau o'r hyn sy'n Bwysig.

lefel grŵp blwyddyn a/neu ysgol, yn enwedig yn y sector uwchradd lle mae angen 'cadw meysydd pwnc ar wahân' yn CA4 yn aml (TGAU) [C17/A/2].

Nodwyd bod Cynlluniau Gwaith yn ffordd wedi'i strwythuro'n dda o ddarparu cysyniad o sut y gallai'r cwricwlwm newydd edrych/gweithio [C17/A/5], gydag awgrymiadau cryf ei bod yn fwy ymarferol cadw penodolrwydd pwnc o fewn yr MDPh [C17/A/6] yn hytrach na cheisio ehangu i feysydd darpariaeth eraill. Cafwyd cyfeiriad buddiol gan un ymatebydd at bwysigrwydd ystyried y broses gynllunio yn fwy hirdymor, trwy osod penderfyniadau ar hyd y continwwm o dechnegau a phrosesau dysgu (sgiliau), a dealltwriaeth gysyniadol a damcaniaethol (gwybodaeth) sy'n datblygu dros amser ac yn gorgyffwrdd yn aml, gan nodi'r canlynol: 'Mae angen dealltwriaeth o'r wybodaeth graidd yn y sector cynradd a fydd yn galluogi dysgwyr i arbenigo' mewn cyfnodau allweddol diweddarach [C25/16].

Yn ddiddorol, roedd cyfeiriadau at ddarpariaeth drawsgwricwlaidd wedi'u cynnwys mewn archwiliadau cydweithredu, gan nodi bod athrawon yn ystyried yr olaf yn allweddol i lwyddiant y cyntaf. Cafwyd rhai mynegiadau o frwdfrydedd a chyffro gwirioneddol ynglŷn â sut y gallai hyn hwyluso proses o gynllunio cynnwys diddorol. Nodwyd bod cydweithredu o fewn ac ar draws darpariaeth grwpiau blwyddyn yn ddull gweithredu dymunol ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac roedd yn ymddangos bod tair nodwedd i'w gweld yn y cyswllt hwn. Yn gyntaf, ar lefel micro, cafwyd cydweithredu cynhwysol a hylaw oddi mewn i'r tîm MDPh yn bennaf [C17/B/3]. Yn ail, ar lefel meso, mabwysiadwyd dulliau ysgol gyfan [C17/B/4; C17/B/9]. Yn y cyswllt hwn, mae'n ddiddorol nodi ei bod yn ymddangos bod gan y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion pob oed (3–18 oed) fantais os oes modd cynllunio'r continwwm dysgu yn iawn ar draws pob cyfnod allweddol mewn un lleoliad [C17/B/9]. Yn olaf, ar lefel macro, roedd cydweithredu yn ymestyn y tu hwnt i'r ysgol ac i gyd-destun yr AALl [C17/B/10], trwy glystyrau ysgolion sydd wedi'u cyfansoddi'n swyddogol neu, yn achos un ysgol arbennig, yn anffurfiol trwy 'gyfeillio' ag athrawon eraill yn yr AALl [C17/B/10].

Efallai nad yw'n syndod, o ystyried yr ymagwedd pwnc-benodol at TGAU, bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu y gallai'r cwricwlwm newydd fod yn fwy addas i CA3 a'r Cyfnodau Allweddol cyn hynny lle mae'r pwyslais yn parhau i fod ar y 'cyffredinol' [C17/D/1]. Yn wir, mae'n bosibl y bydd cyflwyno'r cwricwlwm yn raddol o 2022 ymlaen yn creu rhai problemau penodol ar gyfer y sector uwchradd, o leiaf

hyd nes y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud am ail-gynllunio TGAU[11]. Nodwyd bod 'prosiectau amlddisgyblaeth thematig' [C17/E/2] yn un ffordd o fabwysiadu dull trawsgwricwlaidd mwy cyfannol sy'n ymgorffori mwy nag un MDPh [C17/E/3; C17/E/5; C17/E/8], gyda themâu'n gweithredu fel cyfryngau trefnu trawsgwricwlaidd [C17/E/4]. Cyfeiriodd un ymatebydd at y syniad o sefydlu rhaglen dreigl dwy flynedd o themâu gwaith prosiect ar gyfer Blynyddoedd 7 *ac* 8 [C17/E/5] fel ffordd symlach o drefnu, datblygu a chreu adnoddau ar gyfer darpariaeth y Celfyddydau Mynegiannol. Dim ond un ymatebydd [C17/E/7] a gododd bryderon am natur gyfyngol bosibl mabwysiadu dull thematig.

Roedd canfyddiad bod gwaith prosiect ar lefel clwstwr, mewn cydweithrediad agos ag AALl, yn ffordd dda o ehangu cwmpas yr hyn y gellid ei gyflawni gyda'r cyllid, yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael [C10/A/18], gan rannu syniadau a llwyth gwaith [C24/E/1-4]. Fodd bynnag, gall dilysrwydd dysgu ystyrlon, cydweithredol a ddatblygir ar y cyd, ynghyd â'r broses o gynllunio cwricwlwm creadigol, gael eu tanseilio os yw athrawon yn cael eu rhwystro gan amserlenni gosodedig ar gyfer gweithredu a hwyluso cyfleoedd o'r fath (Hadaway a Richards, 2020; OECD, 2021). Nodwyd bod ymestyn prosesau cydweithredu i gynnwys sefydliadau sydd â chylch gwaith addysg (megis rhwydwaith amgueddfeydd cenedlaethol Cymru) yn ffordd wych o gyfoethogi'r cynnwys [C20/A/21] a sicrhau lefel o ddilysrwydd. Ar y cyfan, roedd llawer o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r angen i feddwl mewn ffyrdd creadigol a datblygu cynnwys trawsgwricwlaidd [C24/A/9; C24/A/12; C24/A/13; C24/A/17; C24/A/19], ond roeddent yn ansicr ynglŷn â sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol.

## Themâu a ddaeth i'r amlwg [2] – Heriau canfyddedig

### *Gwrthwynebiad i newid*

Er bod brwdfrydedd gwirioneddol, os cymedrol, ynghylch cyfleoedd canfyddedig y cwricwlwm newydd, mynegodd llawer o'r ymatebwyr amheuon. Roedd yr heriau

11 Agorodd Cymwysterau Cymru gyfnod ymgynghori yn ystod Hydref 2022, a chyhoeddodd adroddiad o'r enw 'TGAU Gwneud-i-Gymru' ym mis Mehefin 2023, gyda'r nod o gyflwyno'r cymwysterau newydd yn 2027. Mae manylion ar gael ar-lein: https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/cymwysterau-cenedlaethol-14-16/cymwysterau-cenedlaethol-tgau/

canfyddedig fel pe baent yn seiliedig ar elfen o wrthwynebiad i newid ac ymdeimlad o amwysedd ynghylch graddau'r 'newydd' o fewn y cwricwlwm. Mae gwaith ymchwil yn dangos ei bod anodd llywio newid yn aml, ac nad yw'r maes addysg yn eithriad yn y cyswllt hwn (Gouëdard et al., 2020; Jónasson, 2016; Sinnema, Nieveen a Priestley, 2020). O safbwynt yr astudiaeth hon, roedd gwrthwynebiad i newid yn gysylltiedig â mynegiant ehangach o inertia ac amheuaeth ynglŷn ag agwedd Llywodraeth Cymru at ddiwygio'r cwricwlwm (neu hyd yn oed ymwrthodiad llwyr i ddull diwygio Llywodraeth Cymru).

Ar lefel sylfaenol, awgrymodd rhai ymatebwyr fod prosesau 'ail-labelu' yn cael eu rhoi ar waith er mwyn bodloni gofynion y cwricwlwm newydd, a bod 'hen' arferion yn cael eu cadw yn y cwricwlwm 'newydd' [C17/A/2; C17/A/6]. Nododd un ymatebydd, 'Mae rhai ysgolion yn mynd i newid y disgrifiad o'r hyn maen nhw'n ei wneud a pharhau i wneud yr un hen bethau' [C25/19]. Mewn achosion eraill, roedd yn anodd i ymatebwyr ddeall beth oedd angen iddynt ei wneud yn wahanol. Er enghraifft, dywedodd un athro ysgol uwchradd, 'Dydw i ddim yn gwybod pa "wahaniaeth" mae'r cwricwlwm hwn yn mynd i'w wneud i ni yn y sector uwchradd. Rydyn ni'n gwneud hyn i gyd – dydw i ddim eisiau newid fy holl wersi oherwydd hyn [...] Rwy'n erfyn ar rywun i ddweud wrthym yn y sector uwchradd sut mae'r cwricwlwm "newydd" hwn yn wahanol ac yn newydd!' [C25/1].

### *Effeithiolrwydd a Hyder Athrawon*

Ochr yn ochr â'r rhyddid a'r hyblygrwydd canfyddedig i gynllunio'r cwricwlwm, gwelwyd tystiolaeth o argyfwng hyder ymhlith athrawon (gweler Wavehill, 2019b: 15). Daeth pryderon am effeithiolrwydd athrawon i'r amlwg fel esboniad posibl am y gwrthwynebiad i newid. Roedd cwestiynau 9 a 10 o'r holiadur yn cynnwys graddfa Likert er mwyn mesur lefelau hyder yr ymatebwyr mewn perthynas â'u gallu i addysgu'r Celfyddydau Mynegiannol. Yn gyffredinol, roedd lefelau hyder i addysgu'r pwnc yn gryf neu'n gryf iawn ar draws y sampl. Fodd bynnag, roedd y lefelau hyder wedi disgyn pan ofynnwyd i'r ymatebwyr yn benodol am addysgu meysydd pwnc y Celfyddydau Mynegiannol fel rhan o'r cwricwlwm *newydd*, a gellid dadlau bod hyn yn adlewyrchu'r ofn sy'n gallu codi wrth lywio newid.

Roedd effeithiolrwydd a lefelau hyder athrawon yn amrywio o fewn y MDPh yn ei gyfanrwydd. Nodwyd y lefelau uchaf o hyder ar gyfer elfennau craidd

traddodiadol y maes disgyblaeth, yn enwedig celf a cherddoriaeth. Fodd bynnag, mynegwyd lefelau hyder llawer is ar gyfer meysydd mwy newydd y ddarpariaeth. Ar gyfer ffilm a'r cyfryngau digidol, er enghraifft, roedd yr athrawon yn teimlo nad oeddent wedi'u hyfforddi i ddefnyddio offer technegol. Nodwyd y lefelau hyder isaf ar gyfer dawns, ac roedd y pwnc hwn wedi achosi dryswch penodol gan ei fod wedi'i gynnwys fel rhan o Addysg Gorfforol yn yr hen gwricwlwm. Roedd profiad blaenorol ac arbenigedd canfyddedig yn sylfaen i agweddau athrawon at rai elfennau o'r MDPh.

Yn ddiddorol, roedd lefelau hyder yr ymatebwyr cyfrwng Cymraeg yn uwch yn gyffredinol na'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg, yn enwedig ym meysydd ffilm a'r cyfryngau digidol. Yn wir, gellid dadlau bod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg berthynas agosach â'r diwydiannau creadigol cyfrwng Cymraeg yng Nghymru [Cyfweliad 1], sy'n aml yn ymgymryd â phrosiectau 'allgymorth' a chynhyrchu creadigol di-dâl mewn ysgolion (e.e. Coleg Cerdd a Drama Cymru; Boom Cymru) (gweler Griffiths, 2014). Mae'n bosibl bod hyn yn rhoi sicrwydd i ysgolion cyfrwng Cymraeg bod modd sicrhau cysylltiad ystyrlon â'r Celfyddydau Mynegiannol trwy ryngweithio â sefydliadau allanol amrywiol.

Ymddengys bod rhywfaint o'r ansicrwydd ynghylch cynllunio'r cwricwlwm yn deillio o sut i gael cydbwysedd rhwng ehangder ('cyfleoedd i gael blas ar bob maes pwnc' [C18/B/2]) a dyfnder ('cyflwyno sgiliau amrywiol' [C18/B/3]), o ystyried yr ystod amrywiol o bosibiliadau mewn perthynas ag addysgu'r Celfyddydau Mynegiannol. Ar adeg casglu'r data, roedd yn gwbl ddealladwy bod athrawon yn poeni am sicrhau bod y fframwaith yn gywir, cyn mynd ati i ystyried y manylion. O ganlyniad, roedd llai o bwyslais ar feddwl am brofiad y dysgwyr a mwy o bwyslais ar ddod o hyd i ffyrdd o ymateb yn briodol i ofynion fframweithiau'r cwricwlwm newydd. Roedd effeithiolrwydd, yn yr ystyr hwn, yn swyddogaethol ac yn arwynebol yn unig.

### *Hyfforddiant ac Arweiniad y Llywodraeth*

Ar sail rhai o'r pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'u gallu i addysgu'r ystod lawn o feysydd pwnc y Celfyddydau Mynegiannol, cyfeiriodd llawer o'r athrawon at yr angen am hyfforddiant a mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru. Ar lefel sylfaenol, roedd sylwadau'r athrawon mewn ymateb i Gwestiwn 24 (am flaenoriaethau cynllunio) yn canolbwyntio ar yr angen i ddeall elfennau technegol y

cwricwlwm newydd yn well, o safbwynt cynllun strwythurol, asesu a chynnydd. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd [C17/A/12] fod angen mwy o eglurder ynglŷn â natur bosibl dulliau trawsgwricwlaidd. Roedd eraill [C24/A/1; C24/A/5; C24/A/6; C24/A/15] eisiau cael enghreifftiau o gynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith ehangach, neu hyd yn oed 'rhestr o bethau y mae angen i ni eu gwneud/eu haddysgu ac enghreifftiau ohonyn nhw er mwyn i ni gofnodi ein bod wedi'u cwblhau' [C25/5]. Yn gyffredinol, cofnodwyd lefelau o ansicrwydd, dryswch a diffyg eglurder, a nodwyd bod y flwyddyn a oedd ar ddod yn mynd i fod yn un 'annelwig' [C17/F/2].

Credai llawer o'r ymatebwyr fod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd[12] yn allweddol, a nodwyd bod AALlau eisoes wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant [C17/C/1]. Nodwyd bod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn gyfle gwych i gydweithredu a 'bwrw iddi' [C17/C/2], gan alluogi ysgolion i rannu syniadau a datblygu mentrau sy'n addas i gyd-destunau ar lefel leol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at ddigwyddiadau 'gwyll' hyfforddiant mewn swydd [C17/C/3; C17/C/8], sy'n cael eu cynllunio i fanteisio'n llawn ar amser hyfforddiant ar gyfer athrawon heb orfod cau ysgolion. Gellid dadlau bod y ddarpariaeth hon yn gwrth-ddweud canfyddiadau athrawon ynghylch diffyg cymorth.

Efallai mai'r ymateb mwyaf annisgwyl i'r diffyg arweiniad canfyddedig gan y Llywodraeth oedd y ffaith fod rhai athrawon wedi dyfeisio eu 'hadnoddau' eu hunain i gefnogi elfennau o'r cwricwlwm newydd. Byddai adnoddau o'r fath wedi cael eu cynllunio'n ganolog gan y Llywodraeth yn y gorffennol. Er enghraifft, roedd hen ganllawiau pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys rhaglenni astudio ar gyfer pob Cyfnod Allweddol, gyda disgrifyddion manwl, enghreifftiau, a dulliau o fesur ac olrhain cynnydd (Llywodraeth Cymru, 2008). Er enghraifft, defnyddiodd un ymatebydd [C17/A/13) y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r camau cynnydd fel sylfaen i ddull ymchwilio a ddefnyddiwyd i greu 'adnodd cynnydd' ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol yn ei ysgol. Er bod cynnig mwy o ymreolaeth ac osgoi dull ticio blychau o gynllunio'r cwricwlwm yn arwain at fwy o ryddid, awgrymodd ein cyfranogwyr y gellid disgwyl yn rhesymol i Lywodraeth Cymru ddatblygu set newydd o adnoddau safonol i'w defnyddio mewn ysgolion. Nodwyd bod ceisio llenwi bylchau canfyddedig wedi arwain at ddyblygu gwaith a dulliau gweithredu amrywiol. Nodwyd bod athrawon yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ofyn am

12 INSET: Addysg a Hyfforddiant Mewn Swydd

gyngor a datblygu rhwydweithiau proffesiynol cefnogol, fel yr eglurwyd gan Atebydd 4: 'Wel, rydyn ni'n rhan o weithgor rhanbarthol, ond dyw e ddim yn weithgor mewn gwirionedd - grŵp WhatsApp yw e. Felly mae llawer ohono yn deillio o sgwrsio ar y platfform hwn a'r hyn y mae pobl eraill wedi'i wneud. Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un yn gwybod ar hyn o bryd a ydyn nhw'n gwneud y peth iawn'. Roedd y platfformau anffurfiol hyn fel pe baent yn disodli canllawiau swyddogol.

Roedd yr ymatebion penagored i Gwestiwn 25 yn enghraifft arbennig o glir o ymdeimlad yr ymatebwyr o fod ar goll i raddau helaeth. Yn gyffredinol, mynegwyd pryderon am weithdrefnau asesu, diffyg cymorth cyffredinol, a'r angen am fwy o amser i hwyluso prosesau cydweithredu. Fel y nododd un ymatebydd, 'Mae cyflwyno cwricwlwm o safon ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol yn dasg enfawr, ac mae angen cefnogi athrawon i'w gyflwyno'n hyderus. Yn sicr, dyw e ddim yn fater ar wahân, ac mae angen ymateb cydweithredol i sicrhau llwyddiant' [C25/14]. Yn olaf, llwyddodd ymatebydd arall i fynegi'r teimladau cyffredinol o anesmwythder trwy nodi bod y 'cwricwlwm newydd yn rhy agored', sy'n peri ei bod yn anodd i ysgolion greu llwybr clir [C25/6].

### *Dyrannu Amser ac Adnoddau*

Roedd yr her ganfyddedig olaf, a oedd yn sylfaen i'r holl heriau eraill, yn ymwneud â dyrannu amser ac adnoddau. Pan gasglwyd data'r arolwg ym mis Hydref 2021, roedd y rhan fwyaf o ysgolion Cymru yn parhau i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Er bod y pandemig a phwysau eraill wedi tarfu ar y gwaith cynllunio mewn llawer o ysgolion, roedd y farn gyffredinol yn awgrymu bod un mis ar ddeg yn ddigon o amser i baratoi ar gyfer lansio'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Fodd bynnag, o dan yr amserlen lefel facro hon, roedd llawer mwy o amrywiadau rhwng cysyniadau a materion yn ymwneud â dyrannu amser.

Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at yr angen am amser i gydweithredu mewn ffordd ddilys ac ystyrlon, a'r angen i 'wneud pethau'n iawn' [C24/C/2; C24/C/3; C24/C/4; C24/C/11]. Nododd yr ymatebwyr fod digon o ewyllys da i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd, a bod 'athrawon arbenigol ar gael ym mhob disgyblaeth, ond does dim amser i gydgysylltu a chynllunio ar y cyd fel MDPh' [C25/8]. Hefyd, cyfeiriwyd at elfennau o ddiffyg cysylltiad rhwng timau uwch-reolwyr a thimau MDPh, yn enwedig er mwyn neilltuo amser i wneud y gwaith sydd ei angen 'i greu

cwricwlwm gwych'. [C25/4], gydag un athro yn dweud ei fod yn teimlo 'bod y tîm uwch-reolwyr yn dweud wrthym beth i'w wneud, a does dim amser o gwbl i gynllunio ar y cyd' [ibid.]. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gynllunio'r cwricwlwm fesul tipyn, gan ddefnyddio 'ffocws hanner tymor' [C17/A/7; C17/A/10] i greu cyfleoedd i fyfyrio, gwerthuso a newid, gan barhau i ddilyn strwythur y flwyddyn ysgol.

Nodwyd bod amserlennu yn bryder mawr, a bod y Celfyddydau Mynegiannol mewn sefyllfa fregus oherwydd y cwricwlwm llawn. Esboniodd un athro, 'Ar hyn o bryd, mae amserlen CA3 ar gyfer celf, cerddoriaeth a drama yn cynnwys pum gwers bob pythefnos (10 y cant o'r amser addysgu). Er mwyn sicrhau bod y pynciau hyn yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ennyn diddordeb disgyblion, mae angen neilltuo mwy o amser iddynt' [C25/2] [gweler Cyfweliadau 2 a 3]. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr MDPh yn elfen ymylol o'r cwricwlwm newydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn a'r diffyg statws i bynciau, roedd cyfleoedd allgyrsiol yn cael eu defnyddio fel ffordd o sicrhau bod plant yn cael profiadau amrywiol. Fodd bynnag, gan nad yw'r gweithgareddau hyn yn rhan o fframweithiau/prosesau asesu ffurfiol, maent mewn perygl o gael eu hystyried yn llai pwysig. Er bod gan lawer o ysgolion gylch blynyddol o berfformiadau mewnol (e.e. cerddorfa, dramâu, a chorau) sy'n 'weladwy' yn rheolaidd trwy gydol blwyddyn ysgol arferol ac sy'n cynnwys elfen codi arian yn aml, mae angen cyfranogiad o'r tu allan i'r amserlen ffurfiol ar gyfer y digwyddiadau hyn, a all greu heriau o ran rheoli amser.

Arweiniodd yr astudiaeth at drafodaethau am ddyrannu adnoddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr amrywiaeth o gymorth dysgu sydd ar gael (sefydliadau ac arbenigwyr allanol, staff peripatetig, ac adnoddau ar-lein), a seilwaith/cyfleusterau (lle a chyfarpar). Cyfeiriodd llawer o ymatebion at 'Gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol'[13] Cyngor Celfyddydau Cymru fel ffordd o ariannu a chael mynediad at weithdai, prosiectau ac ymweliadau dan ofal gweithwyr proffesiynol. Roedd hyn yn gysylltiedig â sylwadau am orfod chwilio am 'grantiau' [C17/F/3] oherwydd efallai na fydd yn bosibl i ysgolion gyflwyno holl elfennau'r Celfyddydau Mynegiannol yn fewnol bob amser. Fodd bynnag, nodwyd nad oes cyllid ychwanegol ar gael bob tro, a'i fod yn dibynnu weithiau ar leoliad yr ysgol [Cyfweliad 2], sy'n adlewyrchu'r ffaith fod addysg greadigol wedi cael ei herydu ar

13 https://arts.wales/funding/get-started/creative-learning/lead-creative-schools-scheme

bob lefel ledled Ewrop (Lilliedahl, 2023; Lucas, Claxton a Spencer, 2013). Roedd yr ymatebion a oedd yn cyfeirio at fewnbwn allanol yn tueddu i enwi'r un sefydliadau ac arbenigwyr dro ar ôl tro, sy'n awgrymu bod AALl yn cadw rhestrau o ddarparwyr 'cymeradwy' (gweler proses ardystio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd). Yn olaf, cyfeiriwyd at adnoddau ar-lein sydd ar gael i gynorthwyo prosesau cynllunio dysgu. Cyfeiriodd un cyfranogwr at y deunyddiau sydd ar gael ar Hwb[14] [C18/C/17], a chyfeiriodd un arall at wefan annibynnol, nid-er-elw o'r enw *Mantle of the Expert15* sy'n ddiddorol ond nad yw wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Roedd yr ystyriaethau terfynol a nodwyd gan yr ymatebwyr yn ymwneud â'r cyfarpar a'r gofodau sydd ar gael mewn ysgolion. Nodwyd mai cyflenwadau celf traddodiadol yw'r 'adnoddau pwysicaf', ac mai'r ail adnodd pwysicaf yw technoleg ddigidol ar gyfer creu ac arddangos gwaith celf. Nodwyd bod angen i rai meysydd pwnc penodol yn y MDPh (e.e. Ffilm a'r Cyfryngau Digidol) gael mwy o adnoddau a'u datblygu'n well [C24/C/6; C24/C/8; C24/C/12], a bod angen 'Cyllid ar gyfer offerynnau cerdd a chamerâu SLR' [C25/7]. Roedd tuedd i'r gofodau arbenigol fod ar gael yn y sector uwchradd yn unig, lle mae pynciau unigol yn cael eu haddysgu yn aml mewn ystafelloedd dosbarth pwrpasol (h.y. stiwdio gelf, stiwdio ddrama, neu ystafell TG sydd â meddalwedd golygu fideo).

O ystyried amseriad yr arolwg, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, gan awgrymu bod y Celfyddydau Mynegiannol wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cyfyngiadau (yn enwedig o safbwynt ymweliadau ag orielau a theatrau): 'Mae Covid wedi effeithio ar y Celfyddydau Mynegiannol yn fwy nag ar unrhyw bwnc arall' [C18/E/8; Cyfweliad 2]. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod mai rhywbeth dros dro oedd y pandemig, roedd rhai ohonynt yn cyfaddef yn agored bod angen gwaith a sylw ar y Celfyddydau Mynegiannol i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau a osodir gan faterion fel amserlennu, blaenoriaethau cul (e.e. TGAU), a thueddiadau cyffredinol i ymyleiddio'r maes pwnc [C18/E/5]. Yn gyffredinol, nodwyd bod y MDPh hwn yn un cymhleth a bod angen cyllid ychwanegol arno o bosibl o'i gymharu â meysydd pwnc eraill, gan ei bod yn anodd cyflwyno ystod lawn o brofiadau dilys mewn lleoliad ysgol.

14 Hwb yw amgylchedd dysgu rhithwir Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys adnoddau ar gyfer athrawon a disgyblion.

15 https://www.mantleoftheexpert.com/

## Trafodaeth a Chasgliad

Mae'n debyg bod y cyfleoedd a'r heriau canfyddedig a nodwyd yn ein data yn cyfateb i'r 'cleddyf daufiniog' y cyfeiriwyd ato gan Evans (2023). Mae'r athrawon a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon wedi cyfeirio at fanteision ac anfanteision cymharol y cwricwlwm newydd yng nghyd-destun MDPh y Celfyddydau Mynegiannol, gan greu portread cymhleth o ffactorau cysylltiedig sy'n cael eu dal mewn tensiwn dynamig. Roedd prosesau meddwl yr athrawon yn amrywio o optimistiaeth a brwdfrydedd mawr (gweler Thomas et al., 2023) i bryder a dryswch eithriadol (gweler Morrison-Love et al., 2023; Power, Newton a Taylor, 2020), gyda phryderon am 'wneud y peth iawn' wrth wraidd eu penderfyniadau (gweler Evans, 2023).

Roedd pwyslais y cwricwlwm newydd ar sybsidiaredd a galluedd athrawon fel pe bai'n creu sawl penbleth diddorol i'r ymatebwyr. Ar y naill law, roedd y posibilrwydd o gael y rhyddid a'r hyblygrwydd i gynllunio cwricwlwm pwrpasol mewn ysgol yn gyfle cyffrous. Fodd bynnag, roedd llawer fel pe baent yn cael eu digalonni gan bryderon wedi'u gwreiddio mewn diffyg hyfforddiant priodol ac amser i ymgymryd â'r gwaith (Evans, 2023). Mae ymateb o'r fath yn ddealladwy o ystyried natur ragnodol, wedi'i phecynnu ymlaen llaw, yr 'hen' gwricwlwm (gweler Evans, 2022), a'r cymorth pwnc amrywiol, ac annigonol ar adegau, sydd ar gael gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol (Estyn, 2022).

Mae'r disgwyliad bod athrawon yn dod yn 'gynllunwyr cwricwlwm' yn sylfaen i lawer o'r pryderon a fynegwyd gan ein hymatebwyr. Mae'r diffyg hyder ymddangosiadol i gynllunio'r fframweithiau cwricwlwm sylfaenol mewn lleoliadau ysgol a/neu AALl yn dangos nad yw athrawon yng Nghymru wedi cyrraedd sefyllfa eto lle gallant ystyried seiliau athronyddol dyfnach y diwygiadau i'r cwricwlwm (sybsidiaredd a datblygu ar y cyd), oherwydd eu bod yn treulio gormod o amser ar fanylion strwythurol cyflwyno'r cwricwlwm bob tymor. Yn galonogol, ers i ni gasglu'r data, mae Llywodraeth Cymru (2022c) wedi ymateb i adroddiad Estyn (2022), gan gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol, rhwydweithio a chydweithredu trwy awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gyda phwyslais wedi'i dargedu ar gynllunio'r cwricwlwm a chydlyniant.

Gallai 'natur agored' sybsidiaredd arwain at ddeongliadau a dealltwriaeth amrywiol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o fewn y cwricwlwm newydd (gweler

Wavehill, 2019a). Mae hyn yn bryder penodol pan fo cydraddoldeb profiadau addysgol eisoes yn destun pwysau enfawr o ganlyniad i anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol (gweler Newton, Power a Taylor, 2019; y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2019/2020). Gall y cysyniadau ehangach a'r syniadau mawr sy'n cael eu hyrwyddo gan y cwricwlwm newydd arwain yn y pen draw at brofiadau dysgu ac addysgu o ansawdd amrywiol ar gyfer disgyblion ac athrawon. Gallai'r ffaith bod MDPh y Celfyddydau Mynegiannol fel pe bai'n cael ei dangynrychioli mewn amserlenni ysgolion, yn enwedig yn y sector uwchradd, waethygu anghydraddoldebau ymhellach. Mae'n bwysig nodi bod canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu na fydd y cwricwlwm newydd yn rhoi digon o sylw i'r cyfyngiadau amrywiol sy'n bodoli yn y system addysg ehangach yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol ledled y wlad (gweler Newton, 2020).

Mae'r rhybuddion a nodwyd gan yr athrawon yn gwrthbwyso eu hoptimistiaeth. Er bod athrawon yn cael rhywfaint o ymreolaeth i greu cynlluniau gwaith a chynnwys newydd o'r dechrau'n deg, mae'n bosibl na fyddant yn teimlo y gallant wneud hynny o reidrwydd. Mae Jónasson (2016: 8) yn awgrymu bod hyn yn cysylltu â rhaglenni hyfforddiant i athrawon gan fod llawer ohonynt yn aml yn cyfyngu ymarfer i gyfres gul o ddulliau ac felly'n 'llesteirio newid' trwy ddiffyg arloesedd ac ystwythder cynhenid. Mae'n bosibl y bydd athrawon yn teimlo na allant 'greu' dehongliad o'r cwricwlwm newydd yn annibynnol er mwyn bodloni gofynion cyd-destun unigryw eu hysgol, ac yn hytrach byddant yn cadw at yr hyn sy'n gyfarwydd iddynt.

Er bod athrawon yn gwerthfawrogi diwrnodau HMS a chyfleoedd hyfforddiant eraill sy'n cael eu darparu gan AALl, mae angen gwneud mwy i gefnogi athrawon. Mae un agwedd ar hyn yn ymwneud â gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am elfennau allweddol o'r cwricwlwm newydd. Mae'r fframweithiau lluosog, y mae'n rhaid i brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch cynllunio'r cwricwlwm ymateb iddynt, yn creu dryswch (gweler Troednodyn 11). Un o brif bryderon ein hymatebwyr oedd monitro cynnydd, ac roedd rhai athrawon yn cyfeirio at gynllunio dulliau ac atebion pwrpasol ar gyfer cyd-destun eu hysgol. Oherwydd y gallai 'adnoddau' o'r fath fod yn ddefnyddiol a sicrhau lefel o gysondeb, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n ddisgwyliedig. Wedyn, gallai ymreolaeth ar lefel ysgol ganolbwyntio ar

benderfyniadau cynllunio ar lefel cynnwys, sydd eisoes yn rhan o set sgiliau'r rhan fwyaf o athrawon.

Heb os, gellid dadlau bod angen mwy o fuddsoddiad a mwy o gymorth a hyfforddiant er mwyn hyrwyddo cysondeb (gweler y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2014), gan ddechrau gyda rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon ac ymlaen trwy'r continwwm 3–16, ond mae angen arweiniad ymarferol a llawer mwy eglur gan Lywodraeth Cymru i ategu hyn. Byddai dull gweithredu dwy wedd o'r math hwn yn helpu i gynorthwyo prosesau cynllunio'r cwricwlwm ac yn gwella dealltwriaeth o sylfeini athronyddol y cwricwlwm newydd, er mwyn gwireddu'r weledigaeth sy'n sylfaen i'r hyn a honnir sy'n ddiwygiad radical (gweler Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dangos bod athrawon yn ystyried cydweithredu ystyrlon fel agwedd allweddol ar lwyddiant y cwricwlwm newydd. Yn wir, mae ansawdd y cydweithredu yn cael effaith ymarferol (lleihau dyblygu ymdrech, a hwyluso'r broses o rannu syniadau ac adnoddau) a hefyd yn cael effaith ar feddylfryd trawsgwricwlaidd ehangach. Mae ein data yn dangos bod y diffyg lle canfyddedig i gydweithredu, ar lefel AALl, yn rhwystro cyfleoedd ar gyfer myfyrio beirniadol a chysondeb (gweler Power, Taylor, a Newton, 2020). Hefyd, mae'n ddiddorol nodi y gallai'r cwricwlwm newydd (gyda'i bwyslais ar gynllunio continwwm dysgu) fod o fantais i ysgolion pob oed (3–18), lle mae modd hwyluso cydweithredu'n haws ar draws pob cyfnod allweddol oherwydd bod y seilwaith ar un safle.

Mae un pwynt perthnasol olaf yn ymwneud â'r tensiwn sy'n bodoli rhwng disgwyliadau a realiti, ac felly ystyr 'mwy o ymreolaeth (ond nid ymreolaeth lwyr)' (Donaldson, 2015: 15). Er gwaethaf y naratif parthed cwricwlwm 'newydd', nododd yr athrawon yn yr astudiaeth hon nad oes llawer wedi newid yng nghynnwys MDPh y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwerthfawrogi sylfeini athronyddol ehangach y cwricwlwm newydd, wedi'u cyfleu'n briodol gan y rhai sy'n gyfrifol am y diwygiadau, er mwyn sicrhau bod y prosesau cynllunio disgwyliedig yn fwy nag ymarferion ail-labelu sy'n tanseilio'r nod cyffredinol o sicrhau newid.

## Atodiad

| **Cwestiynau’r arolwg sy’n sylfaen i’r data** | |
|---|---|
| Cw. 9 | Yng nghyd-destun y cwricwlwm *newydd* arfaethedig, pa mor hyderus ydych chi’n teimlo, *yn gyffredinol*, am eich gallu i gyflwyno’r Celfyddydau Mynegiannol yn effeithiol?<br>[Graddfa Likert: Ddim yn hyderus o gwbl – Ychydig yn hyderus – Cymharol hyderus – Hyderus iawn – Hynod hyderus] |
| Cw. 10 | Nodwch ar y raddfa pa mor hyderus ydych chi’n teimlo am addysgu pob un o’r Celfyddydau Mynegiannol a restrir yn y cwricwlwm newydd [Graddfa symudol: 0 = ddim yn hyderus o gwbl; 10 = hynod hyderus]:<br>• Celf<br>• Dawns<br>• Drama<br>• Ffilm a’r cyfryngau digidol<br>• Cerddoriaeth |
| Cw. 17 | A yw eich ysgol wedi dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno cwricwlwm newydd y Celfyddydau Mynegiannol?<br>• Ydy<br>• Nac ydy<br>Os ‘Ydy’, sut mae eich ysgol yn bwriadu rheoli’r broses hon? |
| Cw. 18 | Sut mae cwricwlwm eich ysgol (presennol a/neu arfaethedig) yn galluogi dysgwyr i gael profiad uniongyrchol o’r celfyddydau? |
| Cw. 20 | A yw eich ysgol wedi manteisio ar arbenigedd eraill e.e. artistiaid, amgueddfeydd ac orielau, Cyngor Celfyddydau Cymru?<br>• Ydy<br>• Nac ydy<br>•Os ‘Ydy’, nodwch y manylion (blwch testun] |
| Cw. 24 | Beth yw’r flaenoriaeth yn eich barn chi ar gyfer anghenion hyfforddi er mwyn cyflwyno cwricwlwm newydd y Celfyddydau Mynegiannol yn llwyddiannus? |
| Cw. 25 | Yn olaf, defnyddiwch y blwch isod os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill |

## Cyfeiriadau


Andrews, L. (2011) ‘Raising school standards’ (Araith ym Mhrifysgol Caerdydd, 29 Mehefin 2011). Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/4250/1/raising-standards-29-06-11-eng.pdf (Cyrchwyd 08-04-23)

Andrews, L. (2014) *Ministering to Education – A Reformer Reports*. Ceredigion: Parthian Books

Atkinson, D. (2012) 'Contemporary Art and Art in Education: The New, Emancipation and Truth', *International Journal of Art & Design Education*, 31(1), tt. 5–18, https://doi.org/10.1111/j.1476-8070.2012.01724.x

Biesta, G. a Cole, D. (2018): *Art, Artists and Pedagogy*. London: Routledge

Boulton-Funke, A., Irwin, R. L, Le Blanc, N. a May, H. (2016) 'Intercultural Exchange – The interventions and intraventions of practice-based research', yn Burnard, P, Mackinlay, E. a Powell, K. (goln.): *The Routledge International Handbook of Intercultural Arts Research*. London: Routledge, tt. 248–58

Braun, V. a Clarke, V. (2022) 'Conceptual and design thinking for thematic analysis'. *Qualitative Psychology*, 9(1), tt. 3–26, https://doi.org/10.1037/qup0000196

Connolly, M., Milton, E., Davies, A. J. a Barrance, R. (2018): 'Turning heads: The impact of political reform on the professional role, identity and recruitment of head teachers in Wales'. *BERA Educational Research Journal*, 44, tt. 608–25, https://doi.org/10.1002/berj.3450

Craft, A. et al. (2014) 'Creative primary schools: developing and maintaining pedagogy for creativity', *Ethnography and Education*, 9(1), tt. 16–34, https://doi.org/10.1080/17457823.2013.828474

Donaldson, G. (2011) 'Teaching Scotland's Future'. Edinburgh: The Scottish Government. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/2178/7/0110852_Redacted.pdf (Cyrchwyd 27-04-23)

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf (Cyrchwyd 27-02-23)

Duggan, B., Grover, T. a Glover, A. (2017) 'Gwerthusiad Ffurfiannol o'r model

Ysgolion Arloesi: Papur ar weithgarwch Llinyn 1 a Llinyn 2 cynnar. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol 72/2017. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/171130-formative-evaluation-pioneer-schools-model-strand-1-early-strand-2-activity-cy.pdf (Cyrchwyd 20-02-23)

Evans, G. (2023) 'A new dawn or false hope? Exploring the early implementation of Curriculum for Wales', *Education Inquiry*. DOI: 10.1080/20004508.2023.2297506

Evans, G. (2022) 'Back to the future? Reflections on three phases of education policy reform in Wales and their implications for teachers', *Journal of Educational Change*, 23, tt. 371–96. DOI: https://doi.org/10.1007/s10833-021-09422-6

Estyn (2022) 'Y Cwricwlwm i Gymru. Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?' Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-03/Y%20Cwricwlwm%20i%20Gymru%20%E2%80%93%20sut%20mae%20consortia%20rhanbarthol%20ac%20awdurdodau%20lleol%20yn%20cynorthwyo%20ysgolion.pdf (Cyrchwyd 19-02-23)

Furlong, J. (2015) *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ar gyfer Dyfodol Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru*. Oxford: University of Oxford. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/teaching-tomorrow%E2%80%99s-teachers.pdf (Cyrchwyd 17-11-22)

Gouëdard, P. et al. (2020) *Curriculum reform: A literature review to support effective implementation*. Paris: OECD. DOI: https://doi.org/10.1787/efe8a48c-en

Grek, S. (2009): 'Governing by numbers: the PISA "effect" in Europe', *Journal of Education Policy*, 24(1), tt. 23–37. DOI: 10.1080/02680930802412669

Griffiths, M. (2014) 'Welsh-Language Children's Television Production: Applying Audience Research Methods'. Yn: Jones, H. (gol.), *The Media in Europe's Small Nations*. Cambridge Scholars, tt. 157–80

Hadaway, S. a Richards, N. (2020) 'Inter-professionalism between teachers and creative practioners: Risk, exploration and professional identity – learning in situ and the impact on practice', *PRACTICE*, 2(1), tt. 38–52. DOI: 10.1080/25783858.2020.1834824

Jónasson, J.T. (2016) 'Educational change, inertia and potential futures', *European Journal of Futures Research*, 4(7), tt. 1–14. DOI: https://doi.org/10.1007/s40309-016-0087-z

Kneen, J., Breeze, T., Thayer, E., John, V. a Davies-Barnes, S. (2023) 'Pioneer teachers: How far can individual teachers achieve agency within curriculum development?', *Journal of Educational Change*, 24, tt. 243–64, https://doi.org/10.1007/s10833-021-09441-3

Krippendorff, K. (2013) *Content Analysis: An Introduction to Its Methodology.* London: Sage

Lilliedahl, J. (2023) 'Is there a transnational trend of "nudging" away from the arts? How the selection device works in the European-Swedish context', *Arts Education Policy Review*, 124(1), tt. 27–36, https://doi.org/10.1080/10632913.2021.1903639

Lucas, B., Claxton, G. a Spencer, E. (2013) 'Progression in Student Creativity in School: First Steps Towards New Forms of Formative Assessments', *OECD Education Working Papers*, No. 86, OECD Publishing. Ar gael yn: http://dx.doi.org/10.1787/5k4dp59msdwk-en

Llywodraeth Cymru (2008) 'Celf a dylunio yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru: canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3'. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-2008/cyfnodau-allweddol-2-i-4/celf-a-dylunio-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru-canllawiau-ar-gyfer-cyfnodau-allweddol-2-a-3/(Cyrchwyd04-02-23)

Llywodraeth Cymru (2014) '*Cymwys am Oes – cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/21054/1/141001-qualified-for-life-en_Redacted.pdf (Cyrchwyd 06-04-23)

Llywodraeth Cymru (2015a) 'Ysgolion Arloesi'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-ysgolion-arloesi (Cyrchwyd 06-04-23)

Llywodraeth Cymru (2015b) '*Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes*'. Caerdydd: Y Drwydded Llywodraeth Agored. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf (Cyrchwyd 05-02-23)

Llywodraeth Cymru (2017) '*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21*'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf (Cyrchwyd 04-02-23)

Llywodraeth Cymru (2019) 'Mae addysg yn newid'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid (Cyrchwyd 04-02-23)

Llywodraeth Cymru (2020) '*Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru*'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru (Cyrchwyd 04-02-23)

Llywodraeth Cymru (2021a) 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ebrill 2021 – Mae'r ystadegau ar ysgolion, athrawon a disgyblion yn cynnwys data ar gyfer awdurdodau lleol a Chymru ar gyfer Ebrill 2021'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/8/5/1661524824/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ebrill-2021.pdf (Cyrchwyd 27-02-23)

Llywodraeth Cymru (2021b) 'Y Gymraeg yng Nghymru – Cyfrifiad (2021)'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html (Cyrchwyd 27-02-23)

Llywodraeth Cymru (2022a) 'Cwricwlwm i Gymru'. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru (Cyrchwyd 02-10-22)

Llywodraeth Cymru (2022b): 'Fframweithiau Sgiliau Trawsgwricwlaidd'. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd (Cyrchwyd 03-04-23)

Llywodraeth Cymru (2022c) 'Y Cwricwlwm i Gymru: sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?' Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-cwricwlwm-i-gymru-sut-mae-consortia-rhanbarthol-ac-awdurdodau-lleol-yn-cynorthwyo-ysgolion-html (Cyrchwyd 19-02-24)

Morrison-Love, D., Singh, S., Makara-Fuller, K., Evans, G., Farrar, J. a Wiseman-Orr, L. (2023) 'Camau i'r Dyfodol. Cwricwlwm i Gymru: Esblygu Dealltwriaeth o Gynnydd mewn Dysgu – Adroddiad Prosiect', University of Glasgow & University of Wales Trinity Saint David. Ar gael yn: https://www.uwtsd.ac.uk/cy/ymchwil/camau-ir-dyfodol (Cyrchwyd 20-05-23)

Newton, N. (2020) 'The rationale for subsidiarity as a principle applied within curriculum reform and its unintended consequences', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 215–30. DOI: 10.1002/curj.37

Newton, N., Power, S. a Taylor, C. (2019): *Dyfodol llwyddiannus i bawb: Ymchwiliadau i ddiwygio'r cwricwlwm*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/wp-content/uploads/Dyfodol-llwyddiannus-i-bawb-Successful-Futures-for-all-gwefan-CYM.pdf (Cyrchwyd 05-02-23)

Power, S. (2016) 'The politics of education and the misrecognition of Wales', *Oxford Review of Education*, 42(3), tt. 285–98, https://doi.org/10.1080/03054985.2016.1184871

Power, S., Newton, N. a Taylor, C. (2020): '"Successful Futures" for all in Wales? The challenges of curriculum reform for addressing educational inequalities', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 317–33, https://doi.org/10.1002/curj.39

Sammons, P. a Davis, S. (2017): 'Mixed Methods Approaches and their Application in Educational Research', yn Wyse, D., Selwyn, N., Smith, E. a Suter, L.E. (goln.): *The BERA/Sage Handbook of Educational Research (Volume 1)*. London: Sage.

Sawyer, R. K. (2021) 'The iterative and improvisational nature of the creative process', *Journal of Creativity*, 31, tt. 1-6, https://doi.org/10.1016/j.yjoc.2021.100002

Sinnema, C., Nieveen, N. a Priestley, M. (2020): 'Successful futures, successful curriculum: What can Wales learn from international curriculum reforms?', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 181–201, https://doi.org/10.1002/curj.17

Smith, D. (2013): 'Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/celfyddydau-mewn-addysg-yn-ysgolion-cymru.pdf (Cyrchwyd 17-07-22)

Teddlie, C. a Sammons, P. (2010) 'Applications of mixed methods to the field of educational effectiveness research', yn Creemers, B. P. M., Kyriakides, L. a Sammons, P.(goln.): *Methodological advances in educational effectiveness research*. London: Routledge/Taylor & Francis.

Wavehill (2019a) '*Dadansoddiad o'r Adborth am Gwricwlwm i Gymru 2022*'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-10/dadansoddiad-or-adborth.pdf (Cyrchwyd 06-04-23)

Wavehill (2019b) '*Ysgolion Rhagbrofi: Casgliad o Adroddiadau Diwedd Cyfnod*'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-11/ysgolion-rhagbrofi-casgliad-o-adroddiadau-diwedd-cyfnod.pdf (Cyrchwyd 06-04-23)

Ymchwil Arad, ar y cyd ag ICF Consulting Limited (2018) 'Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi: Adroddiad Terfynol'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol 47/2018 Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180712-formative-evaluation-pioneer-school-model-summary-cy.pdf (Cyrchwyd 06-04-23)

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2014) 'Improving Schools in Wales – An OECD Perspective'. Paris: OECD Publishing. Ar gael yn: https://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf (Cyrchwyd 05-02-23).

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2016) 'What makes a school a learning organisation? A guide for policy makers, school leaders and teachers'. Paris: OECD Publishing. Ar gael yn: https://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf (Cyrchwyd 05-02-23).

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2020) *Achieving the New Curriculum for Wales*. OECD (Implementing Education Policies). Ar gael yn: https://doi.org/10.1787/4b483953-en (Cyrchwyd 04-02-23)

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2021) *Teachers' professional learning study: Diagnostic report for Wales.* Ar gael yn: https://www.oecd.org/unitedkingdom/teachers-professional-learning-study-diagnostic-report-for-wales-caf912c7-en.htm (Cyrchwyd 15-07-2023)